TGAU

Fframwaith Amlinellol Awgrymiedig ar gyfer Uned 1:
Crefydd a Themâu Athronyddol

# Cristnogaeth



## Fframwaith Amlinellol Awgrymedig ar gyfer Uned 1: Crefydd a Themâu Athronyddol

## Cristnogaeth

Mae Uned 1 yn cynnwys 50% o'r cymhwyster TGAU. Felly, **dim ond fel canllaw** fydd nod y cynllun dysgu a gynigir isod, yn seiliedig ar tua thair awr o Astudiaethau Crefyddol bob pythefnos dros flwyddyn academaidd. Cyfanswm y gwersi yn y cynllun hwn yw pum deg pump yn seiliedig ar un awr bob gwers. Yr argymhelliad yw y caiff y cwrs **cyfan** ei addysgu **bob amser.**

Dylai'r asesiad fod yn ffurfiannol **ac** yn ddifyr. Lle y bo'n bosibl, dylid ceisio defnyddio'r un fformat â'r arholiad terfynol neu fformat tebyg iddo. Dylid rhannu cynlluniau marcio â'r myfyrwyr bob amser. Yn ddelfrydol, dylai hyn fod tuag at ddiwedd yr uned er mwyn sicrhau eu bod yn cael amser i ddod i arfer â'r gwaith ac ymddiddori ynddo i ddechrau.

Mae'r Moral Maze ar Radio 4 yn adnodd ardderchog i'r sawl sydd â diddordeb, ynghyd â The Infinite Monkey Cage (hefyd ar Radio 4). Mae'r ddau ar gael fel podlediadau sy'n golygu ei bod yn haws dewis penodau perthnasol.

**Rhan B: Thema 1: Bywyd a Marwolaeth (gwersi 1-8)**

| Gwers | Maes Astudio | Cynnwys Penodol | Cysyniadau | Adnoddau | Gweithgareddau Dysgu Posibl |
|---|---|---|---|---|---|
| **1** | Y byd | Dysgeidiaethau Cristnogol amrywiol am darddiad y bydysawd a'r gydberthynas rhwng safbwyntiau Cristnogion a safbwyntiau nad ydynt yn grefyddol o'r creu | Esblygiad | Georges Lemaître – y cosmolegwr, mathemategydd ac offeiriad Catholig o Wlad Belg a weithiodd ar ddamcaniaeth y glec fawr cyn iddi gael ei henwi: https://www.youtube.com/watch?v=sH4miOx3vFE; https://www.youtube.com/watch?v=VuyYGVDCdN0&t=579s<br><br>(Dyma fideo cyfan 'Did God Create the Universe?' gan Hawking?)<br><br>Dau ffotograff gwych i ysgogi myfyrwyr i roi sylwadau arnynt: http://blogs.futura-sciences.com/e-luminet/2016/03/13/cosmogenesis-1-from-myth-to-myth/<br>(mae'r ddolen ar gyfer ffotograff o Lemaître ifanc gydag Einstein ond mae'r safle ei hun yn ddiddorol - astroffisegydd a bardd o Ffrainc)<br>http://www.thefamouspeople.com/profiles/images/georges-lematre-2.jpg | Cymharwch a gwrthgyferbynnwch y safbwynt gwyddonol â'r stori yn Genesis 1 a 2; beth yw lle Lemaître yn hyn o beth? |
| **2** | Y byd | Credoau, dysgeidiaethau ac agweddau Cristnogol at awdurdod, stiwardiaeth, cyfrifoldeb amgylcheddol, cynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang | Cyfrifoldeb amgylcheddol | Genesis 1:28 and Salmau 8:6;<br><br>Esboniwch a thrafodwch y gwahaniaethau rhwng y canlynol:<br>Yr hanes beiblaidd;<br>Damcaniaeth y Glec Fawr<br><br>Esblygiad 'Dall' yn erbyn 'Cynllunedig' - gweler Dawkins a Hawking uchod | Lluniwch gysylltiad â Cymorth Cristnogol, dinasyddiaeth fyd-eang a Genesis 1:28 a Salmau 8:6; |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **3** | Y byd | Safbwyntiau nad ydynt yn grefyddol ar greu'r bydysawd, stiwardiaeth, cyfrifoldeb cymdeithasol a chymunedol | Esblygiad; cyfrifoldeb amgylcheddol | https://humanism.org.uk/about/h4bw/;<br><br>Charles Darwin - ei daith ar y Beagle (Richard Dawkins) - yn y ddolen hon, mae Dawkins yn trafod gyda Ken Ham (mae'n hir ac mae fideos eraill ar gael): https://www.youtube.com/watch?v=6qnOIhLZTpg<br><br>Edrychwch hefyd ar waith Alfred Russel Wallace: http://www.famousscientists.org/alfred-russel-wallace/ (Safbwynt Cymreig da) | Cymharwch a gwrthgyferbynnwch safbwyntiau Dyneiddwyr a Christnogion; Pam gymerodd Darwin gymaint o amser i gyhoeddi ei ganfyddiadau? Cymharwch a gwrthgyferbynnwch safbwyntiau Cristnogion a safbwyntiau nad ydynt yn grefyddol |
| **4** | Tarddiad a gwerth bywyd dynol | Credoau, dysgeidiaethau ac agweddau Cristnogol amrywiol at sancteiddrwydd bywyd dynol | Sancteiddrwydd bywyd | Genesis 1 a 2 - cymharwch y fersiynau gwahanol o'r Creu a pha mor bwysig yw bodau dynol yn ôl pob golwg; canolbwyntiwch ar Genesis 1:31 a Jeremiah 1:5<br><br>http://resources.eduqas.co.uk/Pages/Resource Single.aspx?rIid=678 | |
| **5** | Tarddiad a gwerth bywyd dynol | Safbwyntiau Cristnogol amrywiol ar erthyliad ac ewthanasia | Ansawdd bywyd; sancteiddrwydd bywyd; erthyliad; ewthanasia | Astudiaeth achos: Safbwyntiau Catholig a safbwyntiau'r Eglwys yng Nghymru ar faterion dechrau a diwedd bywyd; Cyfreithiau Cymreig ynghylch rhoi organau ac ymatebion Cristnogol iddo | Cymharwch a gwrthgyferbynnwch safbwyntiau'r Eglwys Gatholig a'r Eglwys yng Nghymru |
| **6** | Tarddiad a gwerth bywyd dynol | Safbwyntiau nad ydynt yn grefyddol ar ansawdd bywyd dros sancteiddrwydd bywyd | Ansawdd bywyd; sancteiddrwydd bywyd | Erthyliad ac ewthanasia - 'rhywogaethiaeth' Peter Singer http://www.bbc.co.uk/ethics/animals/rights/speciesism.shtml | Diffiniwch safbwyntiau sefyllfawr/ perthynolwr ac yna cymharwch nhw â safbwyntiau |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | athrawiaethol/ diamod |
| **7** | Tarddiad a gwerth bywyd dynol | Urddas wrth farw; hawl i ddewis; | Ewthanasia; erthyliad; ansawdd bywyd; sancteiddrwydd bywyd | Trafodaeth ar erthyliad/ewthanasia; cymharwch gyfreithiau'r DU ar ewthanasia â chyfreithiau Gwlad Belg:<br>http://www.patientsrightscouncil.org/site/belgium/<br>http://www.dailymail.co.uk/news/article-3491951/Belgian-lawmakers-vote-world-s-death-demand-law-mean-no-doctor-stop-patient-wants-die.html<br>https://www.youtube.com/watch?v=eo8Hn0DEcpw<br>http://www.bbc.co.uk/news/world-europe-37335846<br>http://www.nhs.uk/conditions/Euthanasiaandassistedsuicide/Pages/Intro1.aspx<br>http://www.telegraph.co.uk/news/uknews/law-and-order/9480227/Tony-Nicklinson-breaks-down-as-High-Court-rejects-his-right-to-die-plea.html<br>http://www.dignityindying.org.uk/<br><br>Donald Trump ar erthyliad:<br>https://www.washingtonpost.com/news/wonk/wp/2016/11/15/what-abortion-could-look-like-in-an-america-without-roe-v-wade/<br>Stori deimladwy a difyr iawn:<br>http://www.bbc.co.uk/news/health-38012267 | Trafodaeth ar erthyliad; cyfeiriwch yn ôl at safbwyntiau sefyllfaol/ diamod |
| **8** | Credoau am farwolaeth a bywyd ar ôl marwolaeth | Credoau a dysgeidiaethau Cristnogol am fywyd ar ôl marwolaeth | Enaid; bywyd ar ôl marwolaeth | Mae'r bennod o The Simpsons lle mae Bart yn y capel yn gwerthu ei enaid yn lle da i ddechrau trafodaeth; | Dadansoddiad o rannau o'r beibl: Ioan 11:24-27, 1 Corinthiaid 15:42-44 |